Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**

# Ysgol Goffa – nodyn o'r ymweliad

29 Mehefin 2023

**Yn bresennol:**

- Sioned Williams AS
- Sian Hughes, Uwch Ymchwilydd

## 1. Yr ysgol

**1.** Mae Ysgol Goffa yn darparu ar gyfer dysgwyr 3-19 oed gydag anableddau dwys a lluosog. Mae 111 o ddisgyblion ar y gofrestr, ac mae rhestr aros ar gyfer yr ysgol.

**2.** Darparodd dau ddisgybl daith o amgylch yr ysgol a chynhaliwyd trafodaethau gyda staff a disgyblion ym mhob ystafell ddosbarth.

**3.** Cyn bo hir, bydd yr ysgol yn symud i safle newydd gydag ysgol newydd sbon. Mae plant yr ysgol wedi cyfrannu at ei dyluniad. Er y bydd mwy o gapasiti yn yr ysgol, teimlai'r pennaeth y byddent yn dal i fod wedi'u gordanysgrifio oherwydd maint y rhestr aros ar gyfer yr ysgol. Ar hyn o bryd, mae gofod yn broblem yn yr ysgol gan fod angen sawl darn o offer (fel cadeiriau olwyn) ar lawer o'r plant.

## 2. Trafodaethau â rhieni, staff, llywodraethwyr a disgyblion

**Hyfforddiant**

**4.** Siaradodd y staff am yr hyfforddiant y maent wedi'i gael. Yn ogystal â hyfforddiant ar gyfer y cwricwlwm newydd a datblygiad proffesiynol cyffredinol arall, mae angen hyfforddiant mwy

arbenigol arnynt, fel hyfforddiant sy'n gysylltiedig ag iechyd a hyfforddiant meddygol. Roedd staff yn croesawu'r gefnogaeth a gawsant gan arbenigwyr lleferydd ac iaith a nyrsys cymunedol sy'n dod i'r ysgol yn rheolaidd.

**5.** Siaradodd aelod o staff cymorth am y cymwysterau yr oedd hi'n eu dilyn a'i dymuniad i symud ymlaen at gymhwyster addysgu ffurfiol. Fodd bynnag, byddai hyn yn golygu gadael yr ysgol neu gymryd absenoldeb di-dâl gan na ellir ymgymryd â lleoliadau hyfforddi athrawon yn gyfan gwbl mewn ysgol arbennig.

## Addysg gynhwysol

**6.** Nid yw bob amser yn hawdd penderfynu beth sydd orau i'r plentyn. Mae'r cwricwlwm, cymarebau staff a lefel hyfforddiant staff mewn ysgolion prif ffrwd yn darparu profiad gwahanol i ddysgwyr, ac efallai nad dyna'r peth mwyaf priodol i ddysgwyr ag anghenion ychwanegol.

**7.** Efallai y bydd manteision cadarnhaol i ddysgwyr eraill mewn ysgolion prif ffrwd o ran dysgu am gynwysoldeb, ond efallai na fydd o fudd i'r dysgwr ag anghenion ychwanegol bob amser.

**8.** Mae rhai agweddau heriol ynglŷn ag ysgolion arbennig ac efallai y bydd rhieni'n teimlo eu bod yn cael eu stigmateiddio. Roedd y rhieni i gyd yn gadarnhaol iawn am bresenoldeb eu plant yn yr ysgol. Roedd rhai yn teimlo mai 'dogma' oedd addysg gynhwysol i rai, ac nid yw o reidrwydd er lles y dysgwr.

## Cymwysterau

**9.** Os yw dysgwyr yn dymuno astudio ar gyfer arholiadau fel TGAU, mae gan yr ysgol drefniadau gydag ysgol uwchradd leol. Dywedodd yr ysgol nad ydyn nhw'n rhoi unrhyw gyfyngiadau ar y dysgwyr.

## Gofal plant

**10.** Awgrymodd rhieni fod hwn yn 'fwlch enfawr' wrth gael mynediad at ofal plant. Nid oedd darpariaeth yn ystod gwyliau'r haf yn cael ei hysbysebu'n dda bob amser - gyda gweithwyr cymdeithasol yn dweud wrth rieni fod y ddarpariaeth ar gael - ac roedd y lleoedd yn cael eu llenwi yn gyflym iawn.

## Cyllid

**11.** Nid yw cyllid ar gyfer ysgolion arbennig yn cael ei wneud yn yr un ffordd ag y mae ar gyfer ysgolion prif ffrwd ac roedd y pennaeth wedi llwyddo i sicrhau cyllid fformiwla ar gyfer yr ysgol, er bod cyllid yn broblem.

## Gwybodaeth

**12.** Siaradodd rhieni am y 'frwydr' y bu'n rhaid iddynt ei chael er mwyn cael mynediad i'r addysg iawn i'w plant. Nid oedd gwybodaeth am ddewisiadau ar gael yn rhwydd nac yn cael ei gynnig yn rhagweithiol i rieni. Roedd yn rhaid mynd ati i chwilio amdano.

**13.** Roedd y pennaeth wedi bod o gymorth wrth gynghori rhieni ynghylch eu mynediad at weithwyr cymdeithasol a thaliadau uniongyrchol. Siaradodd rhieni am beidio â bod yn ymwybodol o'r ddarpariaeth oedd ar gael ac y byddai'n rhaid iddyn nhw wybod bod angen iddynt ofyn am gymorth.

## Trafnidiaeth

**14.** Roedd gan yr ysgol drefniadau cludiant da ac roedd y disgyblion yn mwynhau'r rhyngweithio cymdeithasol a'r annibyniaeth a ddaw o deithio ar fws.

**15.** Fodd bynnag, nid oedd bob amser yn glir pam y gwnaed penderfyniadau i gynnig cludiant am ddim i'r ysgol. Darparwyd enghraifft o ddau blentyn yn byw yn yr un tŷ lle cynigiwyd cludiant i un ohonynt ond nid i'r llall. Roedd hebryngwyr cludiant ysgol wedi cael gwybod na ddylent guro ar ddrws unrhyw deulu lle nad oedd y plentyn yn barod i fynd i'r ysgol ac roedd hyn yn golygu y byddai'r plentyn yn aml yn colli diwrnod yn yr ysgol.

**16.** Roedd problemau ar gyfer cludiant i golegau ôl-16 lle byddai angen i ddysgwyr ddod o hyd i'w ffordd eu hunain yno.